

LLYWELYN ap GRUFFYDD, 'Y Llyw Olaf' (bu farw 1282), tywysog Cymru

Enw: Llywelyn ap Gruffydd
Ffugenw: Y Llyw Olaf
Dyddiad marw: 1282
Priod: Eleanor de Montfort
Plentyn: Gwenllïan ferch Llywelyn ap Gruffudd
Rhiant: Senena ferch Caradog
Rhiant: Gruffydd ap Llywelyn
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: tywysog Cymru
Maes gweithgaredd: Gwrthryfelwyr; Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Thomas Jones Pierce

Ail fab **Gruffydd ap Llywelyn** a Senena, ac wŷr **Llywelyn ap Iorwerth**. Ni ellir olrhain ei yrfa ymhellach yn ôl na 1245 pan geir ef yn un o'r gwŷr mawr o gylch **Dafydd II**, ffaith sydd yn awgrymu ei fod ef, yn wahanol i'w dad a'i frawd hŷn, **Owen**, yn ffefryn gan ei ewythr, ac, efallai, yn cael ei ystyried fel ei aer. Ar ôl trychineb 1246 a threfnu cytundeb Woodstock â Harri III yn 1247, bu raid iddo am wyth mlynedd rannu gydag **Owen** y gwaith o deyrnasu ar diriogaeth i'r gorllewin o afon Conwy, tiriogaeth a oedd bellach yn llawer llai nag yr arferai fod. Oherwydd ei fuddugoliaeth ar **Owen** a brawd iau, **Dafydd**, ym Mryn Derwin, 1255, fodd bynnag, cymerodd y cam cyntaf i gyfeiriad ailgadarnhau'r awdurdod tiriogaethol cyfan a feddid ar un adeg gan **Llewelyn I**. Rhwng y blynyddoedd 1256 a 1267 cafodd fwynhau cyfnod o fuddugoliaeth ar ôl buddugoliaeth bron yn ddi-dor. Oblegid gwendid Coron Lloegr a'r diffyg undeb ymhlith arglwyddi'r gororau ar y pryd, gallodd aduno Gogledd Cymru o Ddyfi i Ddyfrdwy a chydio wrthi rannau helaeth o ganolbarth y mars cyn belled â ffiniau Gwent; yn y cyfamser yr oedd yn amddiffyn y tiroedd a goncweriodd trwy ddwyn cyfres o gyrchoedd didrugaredd ar Dde Cymru. Yn 1258 gorfu i'r tywysogion Cymreig eraill - ar wahân i **Gruffydd ap Gwenwynwyn**, a ymostyngodd yn 1263 - drosglwyddo eu gwrogaeth oddi wrth y brenin i Llywelyn a'r un flwyddyn fe'i cyhoeddodd ei hun yn dywysog Cymru. Yr oedd i'r cam pwysig hwn arwyddocâd cyfansoddiadol mawr iawn; fe'i cydnabuwyd yn swyddogol gan Harri III (yr oedd Llywelyn, serch hynny, i barhau i dalu gwrogaeth i'r brenin) yng nghytundeb Trefaldwyn, 1267, ac y mae'n gam a barodd godi Llywelyn i le ar ei ben ei hun ymhlith gwŷr mawr hanes Cymru fel y gŵr a wnaeth yr arbrawf cyntaf ar drefnu ei gwladwriaeth ei hunan i'r wlad.

Yn ystod y 10 mlynedd 1267-77 ceir newid yn y sefyllfa; bellach y mae'r berthynas rhwng Cymru a Lloegr yn canolbwyntio mwy ar dde-ddwyrain y wlad. Trefnodd Llywelyn i wneuthur y wlad y tu ôl i'w gefn yn ddiogel trwy wneuthur y defnydd helaethaf o adnoddau economaidd a milwrol y canolbarth. Adeiladodd castell Dolforwyn, creodd fwrdeisdref Abermiwl, a dechreuodd ymosod ar ei gymdogion ymhellach i'r de, gan lwyddo i raddau yn ei ymwneuthur â theulu Bohun, eithr methu diorseddu teulu **Clare** yn eu castell newydd yng Nghaerffili. Yr oedd ei bolisi cartrefol y pryd hwn yn tueddu i fod yn ddirugaredd - ceir enghraifft yn y modd y deliodd ag esgobion y gogledd - a daeth yn sgîl y polisi hwnnw gyfnewidiadau cymdeithasol a chyfreithiol ag iddynt bwysigrwydd cynhenid; yn eu dilyn hefyd daeth gelyniaeth amryw o'i ddelliaid. Yr oedd gwrthgiliad **Dafydd a Gruffydd ap Gwenwynwyn** (1274), yn ddirnod drom, ac yn ernes o'r llu mawr o wrthgiliaidau a ddilynodd yn 1277.

Bu anafodlonrwydd Llywelyn oblegid yr anawsterau cynyddol ar hyd y goror yn rheswm iddo wrthod dro ar ôl tro rhwng 1273 a 1277 gadw, fel un o 'weision' y brenin newydd Edward I, delerau cytundebau a wnaethai. Er na wyddys pa mor bwysig oedd natur ei gwynion, cafodd ei feio'n drwm am ei anghymodlonrwydd a'i ddiffyg doethineb, a dywedyd y lleiaf, yn herio felly awdurdod a gallu adferedig brenhiniaeth Lloegr, polisi a'i harweiniodd i gael ei orchfygu yn rhyfel 1277 a dymchwel holl waith ei fywyd. Wedi cytundeb Aberconwy nid oedd yn weddill iddo namyn Gwynedd i'r gorllewin o afon Conwy, serch caniatâu iddo ddefnyddio'r teitl (gwag bellach) - tywysog Cymru - a chanddo, ynglŷn â'r teitl hwnnw, benarglwyddiaeth ar bum arglwyddiaeth fach yn Edeirion a Meirionnydd.

Yng Nghaerwrangon, ar 13 Hydref 1278, ac yng ngŵydd y brenin, priodwyd Llywelyn ag **Eleanor de Montfort**, merch yr iarll Simon de Montfort; yr oeddynt wedi eu dyweddio cyn belled yn ôl â'r flwyddyn 1265, yn Pipton, pan gydymunasai Simon a Llywelyn yn ffurfiol i wrthwynebu'r Goron. Gohirasid y briodas ei hun o'r flwyddyn 1275 oherwydd fod y briodasferch yn cael ei chadw, megis fel carcharor, yn Windsor gan Edward I.

Yn dilyn, cafwyd pum mlynedd dyngedfennol. Ymddug Llywelyn tuag at y brenin yn y modd mwyaf addas; o dan amgylchiadau annymunol dros ben bu'n amyneddgar y tu hwnt a dangos ei fod yn fedrus iawn fel diplomydd. Materion technegol a chyfreithiol ynglŷn â phenderfynu ystyr rhai pethau yn y cytundeb a wnaethpwyd ychydig cyn hynny a oedd wrth wraidd yr helynt - a chofio hefyd fod a fyinnai **Gruffydd ap Gwenwynwyn** beth â'r helynt hwnnw; yr oedd hefyd achosion eraill nad oedd y naill ochr na'r llall yn gwbl gyfrifol amdanynt. O safbwynt Llywelyn yr oedd y brenin, heb os nac onibai, yn torri rhai o amodau'r cytundeb trwy drin y materion yr oeddid yn anghydweld yn eu cylch yn ôl cyfraith Lloegr yn hytrach nag yn ôl cyfraith Cymru - serch bod gwahaniaeth barn ymysg ysgrifenywyr ynglŷn â'r rhesymau paham y gweithredai felly. Hyd yn oed er hynny, ei orfodi i ymladd a gafodd Llywelyn; y **tywysog Dafydd** a achosodd y rhyfel diwethaf trwy ymosod ar Benarlâg ar Sul y Blodau, 1282, a thrwy hynny beri i ryfel cyffredinol dorri allan.

Lladwydd Llywelyn ar 11 Rhagfyr 1282 pan oedd ar gyrch ymladd yng nghyffiniau Llanfair-ym-Muellt, amgylchiad a ddaeth ag annibyniaeth wleidyddol Cymru fwy neu lai i ben. Nid mewn brwydr fel y cyfryw y cwympodd Llywelyn, eithr ar lannau Irfon ar law rhywun na wyddai ar y pryd pwy oedd y gŵr yr oedd yn ei ladd. Anfonwyd ei ben yn ddiweddarach i Lundain i'w arddangos i'r cyhoedd; claddwyd ei gorff gan Sistersiaid Cwm Hir, un o abatai urdd yr oedd y tywysog yn hoff iawn ohoni ac y cafodd ohoni rai o'i gefnogwyr mwyaf teyrngar. Buasai **Eleanor** farw ychydig cyn hynny ar enedigaeth plentyn; gorfennodd Gwenllïan, ei merch hi ac unig ddisgynydd cyfreithlon Llywelyn, ei gyrfa fel lleian yn Sempringham.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. II

Oxford Dictionary of National Biography

Littere Wallie (1940)

Calendar of Ancient Correspondence concerning Wales (1935)

The Welsh Assize Roll, 1277â€“1284 (1940)

F. M. Powicke, *King Henry III and the Lord Edward the community of the realm in the thirteenth century*(Rhydychen 1947), V, ii. ch.

Councils and Ecclesiastical Documents relating to Great Britain and Ireland, i

Archifau LIGC: NLW MS 6680B: Llawysgrif Hendregadredd

D. Myrddin Lloyd (gol.), *Historical Basis of Welsh Nationalism* (1950), 42-59

Bulletin of the Board of Celtic Studies, v, 349-53

Darllen Pellach

Ex Rotulis Walliae: 6, 7, 8, 9 Edw. 1. m. 10. (in Schedula.); Hostages delivered to King Edward 1, by Llewelin, Prince of Wales, Anno 6. Edw. 1. 1279 (Middle Hill Press c.1865)

William Sotheby, William Warrington, *The Cambrian hero, or, Llewelyn the Great: an historical tragedy* (Egham 1800?)

Erthygl Wicipedia: Llywelyn Ein Llyw Olaf

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 30337673

Wikidata: Q369651

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Pierce, T. J., (1953). LLYWELYN ap GRUFFYDD, 'Y Llyw Olaf' (bu farw 1282), tywysog Cymru. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LLYW-APG-1200>

Y Bywgraffiadur

Prefatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiolch i
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government